



YSGOL GYMUNED LLANFECHELL COMMUNITY SCHOOL  
FFORDD Y MYNYDD  
LLANFECHELL  
AMLWCH  
YNYS MÔN  
LL68 OSA



PENNAETH / HEAD TEACHER: Mrs. Meinir L. Roberts B.Add. (Anrhyd.)

01407 710 512

email -[pennaeth.llanfechell@ynysmon.gov.uk](mailto:pennaeth.llanfechell@ynysmon.gov.uk) www.ysgolllanfechell.org

### **Cylchlythyr 1 – Medi 2014**

Croeso nol i bawb, a gobeithio eich bod wedi mwynhau'r gwyliau. Rydym yn falch o groesawu atom 6 o blant bach newydd i'r dosbarth meithrin ac yn gobeithio y byddent yn hapus yma gyda ni.

#### **Arolwg**

Mae'r ysgol wedi derbyn adroddiad arolwg ESTYN ardderchog yr ydym yn ymfalchio ynddo. Gellir gweld copi ohono ar safwe'r ysgol. Ychydig iawn o ysgolion yr ynys sydd wedi cael adroddiad cystal. Mae hyn yn profi fod plant yr ysgol hon yn cael mynediad at addysg dda iawn. Hoffwn ddiolch i'r holl staff, y disgyblion, rhieni a'r Llywodraethwyr am eu cefnogaeth a'u cyfraniad at lwyddiant yr ysgol hon. Fe fyddwn yn parhau i weithio'n galed er mwyn sicrhau fod plant Llanfechell yn parhau i dderbyn yr addysg gorau posib. Cysylltwch gyda'r Pennaeth os ydych angen copi caled.

#### **Cysylltu gyda'r ysgol.**

Hoffwn eich atgoffa ei fod yn bosib i chwi gysylltu gyda'r ysgol drwy lythyr, ffonio, anfon testun neu drwy ebostio'r Pennaeth. Bydd yr ysgol yn anfon gwybodaeth i chi drwy lythyr a thrwy system "Teachers2Parents". Mae'n hanfodol felly eich bod yn hysbysu'r ysgol os ydych yn newid eich rhif ffôn symudol. Gellir hefyd gweld copiau o lythyrau ar safwe'r ysgol. Y cyfeiriad yw [www.ysgolllanfechell.org](http://www.ysgolllanfechell.org).

#### **Aelodau Staff Newydd.**

Croeso i Mrs Helen Jones fydd yn addysgu plant Blwyddyn 2 hyd nes fydd Miss Dawn Hughes yn dychwelyd o'i chyfnod Mamolaeth ac hefyd i Ms Eleri Roberts fydd yn gymhorthydd dosbarth gyda Blwyddyn 5 a 6 tan Gorffennaf 2015.

#### **Gwirfoddoli.**

Cysylltwch gyda'r ysgol os oes gennych ddiddordeb helpu gyda'r plant yn darllen, celf, garddio, Urdd neu chwaraeon. Bydd rhaid i bawb sy'n gwirfoddoli fod wedi bod trwy gwiriad DBS heddlu.

### **Ffrwythau a Dŵr**

Mae croeso i blant ddod â **ffrwythau'n unig** i'r ysgol i'w bwyta'n ystod amser chwarae. Mae gennym hefyd siop ffrwythau'n yr ysgol lle gellid prynu ffrwythau am 20c. Mae yma Ffynnon Ddŵr at ddefnydd y plant. Ni chaniateir i blant ddod â bisgedi na bariâu grawnfwyd brecwast i'r ysgol nag unrhyw fath o ddiad heblaw am ddŵr. Mae'r ysgol yn ceisio annog y plant i yfed digon o ddŵr yn ystod y dydd, ac i fwyta'n iach yn unol â chanllawiau Blas Am Oes, a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth yng Nghymru.

### **Cinio Ysgol**

Mae angen sicrhau fod yr ysgol wedi derbyn taliad cinio erbyn **9.15 ar fore Gwener fan bellaf bob wythnos**. Gofynnwn i chwi roi'r arian neu'r siec mewn amlen gydag enw'r plentyn arno yn wythnosol. Dylid gwneud sieciau'n daliadwy i Gyngor Ynys Môn. Bydd angen rhoi **wythnos o rybudd** i'r gogyddes os ydych plentyn yn newid o frechdanau i ginio neu o ginio i frechdanau.

### **Addysg Gorfforol**

Bydd angen dillad addas ac esgidiau pwrpasol. Disgwylir i bob plentyn newid ar gyfer pob gwern Addysg Gorfforol.

Meithrin, Derbyn - Dydd Mawrth

Blwyddyn 1/2- Dydd Mawrth a Dydd Mercher

Blwyddyn 3 a 4 – Dydd Mercher a Dydd Gwener

Blwyddyn 5 a 6 – Dydd Mawrth a Dydd Gwener

### **Trefn bore**

Gofynnwn i holl rieni plant Blwyddyn 2 – 6 ollwng eu plant ar yr iard gefn bob bore fel bod y plant yn barod i ddod i'w rhesi am 9.00. Gofynnwn i chwi beidio dod i fewn i'r dosbarthiadau. Os ydych angen siarad gyda'r athrawes gofynnwn i chwi ffonio'r ysgol i drefnu apwyntiad. Diolch.